# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22 Mai 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Prif Weinidog*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Weinidog gyda Phennaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru cyn iddi gael ei phenodi. (WAQ24239)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cleifion yn gweld Meddyg Teulu o fewn 24 awr. (WAQ24213)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau oncoleg yn Abertawe. (WAQ24214)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i wella'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau oncoleg yn Abertawe. (WAQ24215)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei phrif amcanion yn ystod y tymor hwn o'r Cynulliad. (WAQ24216)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyrraedd y targedau iechyd a osodwyd ar gyfer y Cynulliad Cyntaf. (WAQ24217)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau i fynd i'r afael â phwysau geni isel yng Nghymru. (WAQ24218)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt llunio Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Arthritis yng Nghymru. (WAQ24219)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i newid rheolau a gweithdrefnau ysbytai i gydnabod partneriaid o'r un rhyw yn berthnasau agosaf. (WAQ24220)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael gwared ar daliadau presgripsiwn yng Nghymru. (WAQ24221)

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynlluniau adeiladu ar gyfer ysbyty newydd yn y Rhondda. (WAQ24222)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau a ddarperir gan Feddygon Teulu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ24223)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwelyau sydd ar gael mewn ysbytai yn Ardal Iechyd Gogledd Cymru. (WAQ24224)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithredu yr addewid sydd yn ei maniffesto i roi'r hawl i bobl weld Meddygon Teulu o fewn 24 awr. (WAQ24225)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cosbau ariannol posib a ddaw i'r Cynulliad o ganlyniad i fethu â sefydlu cynllun casglu anifeiliaid trig erbyn mis Mai eleni. (WAQ24207) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o fwrw ati â'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol. (WAQ24226)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyfatebiaeth rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol sy'n is na'r cyffredin yng Nghymru. (WAQ24227)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithiolrwydd Cadeirydd a Swyddogion ELWa. (WAQ24228)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau diogelwch disgyblion yn yr ysgol. (WAQ24229)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar golegau amaethyddol yng Nghymru. (WAQ24230)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyfforddiant galwedigaethol a ddarperir yng Nghymru ar gyfer amaethyddiaeth a’r tir. (WAQ24231)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith a wneir yn ysgolion Cymru i hyrwyddo sgiliau sylfaenol sy'n cynyddu'r cyfleoedd i gael swydd. (WAQ24232)**R**

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r rhan sydd gan bobl ifanc i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel. (WAQ24233)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pryd y cymeradwyodd y Gweinidog y strwythur uwch-reoli newydd sydd yn ELWa. (WAQ24234)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i'r awgrymiadau gan sawl cyngor yn Llundain y dylid defnyddio tai cyngor yng Nghymru fel llety i denantiaid na ellir eu cartrefu yn ardaloedd awdurdodau lleol Lloegr. (WAQ24235)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A gytunwyd ar unrhyw drefniadau ffurfiol ynghylch adleoli tenantiaid cyngor o ardaloedd awdurdodau lleol Lloegr i ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. (WAQ24236)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A ydyw'r Gweinidog wedi cwrdd â'r cymdeithasau tai hynny yng Nghymru sydd wedi cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol yn Lloegr yn ystod y misoedd diwethaf ynghylch adleoli tenantiaid cyngor i ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. (WAQ24237)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A ydyw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau ynghylch y rhaglen Fresh Start sy'n ceisio adleoli tenantiaid cyngor o Lundain a De-ddwyrain Lloegr i ardaloedd eraill. (WAQ24238)